Annwyl Gwsmer,

# Penderfyniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus lleol

**Swyddfa Bost Y Gelli**
**10-11 Heol Tŷ-isaf, Y Gelli, CF41 7TX**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau y gwnaed penderfyniad, yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, i fwrw ymlaen â symud y Swyddfa Bost uchod i Siop Gyfleustra Asees, 41 Heol Tŷ-isaf, Y Gelli, CF41 7TX.

Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth inni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid yn well a chafodd hyn ei ystyried, ynghyd â'r holl ffactorau eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad. Cafodd crynodeb o'r adborth ei amgáu, ynghyd â thaflen wybodaeth sy'n rhoi manylion pellach am y gangen newydd.

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rydym yn ffyddiog o hyd y bydd cynllun a lleoliad y gangen newydd yn dal i ateb gofynion y cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth rhagorol, yn ogystal â diogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 12:30 ddydd Sadwrn 15 Mawrth 2025, a bydd y gangen newydd yn agor yn Siop Gyfleustra Asees, am 13:00 ddydd Llun 17 Mawrth 2025. Os bydd unrhyw amgylchiadau nas rhagwelwyd yn gorfodi newid y dyddiadau hyn, bydd posteri yn cael eu gosod yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid.

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw gyfleusterau Swyddfa'r Post eraill sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am ddwy gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Ton Pentre, 27 Heol yr Eglwys, Ton Pentre, CF41 7EB
- Swyddfa Bost Treorci, 21-23 Y Stryd Fawr, Treorci, CF42 6NP

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar Hyb Ymgynghori Swyddfa'r Post yn: postofficeviews.co.uk

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae darn sy'n ymwneud ag Ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Newidiadau Rhanbarthol**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.
Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

postoffice.co.uk

# Atodiad A

## Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

**Dechreuodd yr ymgynghoriad** 17 Ionawr 2025
**Daeth yr ymgynghoriad i ben** 28 Chwefror 2025

**Ymatebion o'r ymgynghoriad**

- 38 ymateb gan gwsmeriaid

**Y prif faterion a godwyd**

- Parcio
- Lle y Tu Mewn ac Aros Tro
- Preifatrwydd
- Hyfforddiant Staff
- Blwch Postio'r Post Brenhinol

**Ymateb i'r materion a godwyd**

**Parcio**
Mae parcio ac anhrefn trafnidiaeth ar adegau prysur yn broblemau cyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG. Er bod y lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig, gwnaed adolygiad pellach ynghylch parcio a chadarnhawyd bod modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw.

**Lle y Tu Mewn ac Aros Tro**
Y tu mewn, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i gynnal gwasanaeth Swyddfa'r Post ochr yn ochr â'r gwasanaeth manwerth. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad. Bydd peth celfi a ffitiadau'n cael eu symud neu'n cael eu cymryd oddi yno er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw rwystr wrth fynd i mewn i'r adeilad a bod y fynedfa, y llwybrau siopa a'r man aros-tro yn ddirwystr a bod digon o le i gwsmeriaid a chadair olwyn symud o gwmpas heb anhawster.

**Preifatrwydd**
Mae ein gweithredydd yn bwriadu cynnwys Swyddfa Bost fodern yn ei siop, a gwneud yn siŵr fod digon o le, diogelwch a phreifatrwydd i gwsmeriaid y Swyddfa Bost a'r siop.

Byddwn hefyd yn cydweithio'n glos â'r gweithredydd newydd i wneud yn siŵr fod yna ddigon o breifatrwydd i gwsmeriaid Swyddfa'r Post. Er enghraifft, rydym yn trafod materion fel cynllun y ciw a gofyn i gwsmeriaid aros i ffwrdd o'r cownter wrth aros eu tro am wasanaeth ac i gyflwyno anfoneb sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol â'i hwyneb tuag i lawr. Mae ystafell cynllun-agored yn tueddu i wneud i bobl siarad yn dawelach am nad oes raid iddyn nhw godi eu lleisiau i gael eu clywed.

**Hyfforddiant Staff**
Mae ein gweithredydd newydd yn awyddus i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid. Mae safon yr hyfforddiant i'r staff yr un mor uchel ag yw yn ein holl ganghennau. Mae hyn yn cynnwys parchu cyfrinachedd cwsmeriaid a glynu wrth ein camau diogelwch llym er mwyn diogelu staff a chwsmeriaid. Bydd unrhyw staff a fydd yn ymwneud â thrafodion Swyddfa'r Post wedi cael eu hyfforddi ynghylch sut i gydymffurfio mewn sawl maes, gan gynnwys Diogelu Data a Thrafod Post.

**Blwch Postio’r Post Brenhinol**

O ran y blwch postio, y drefn arferol yw ein bod yn rhoi gwybod i 'r Post Brenhinol am ein cynlluniau oherwydd nhw sy'n gyfrifol am bopeth sy'n ymwneud â dosbarthu post. Felly, nhw fydd yn penderfynu a ddylid newid lleoliad y blwch postio neu osod un newydd. Maen nhw'n fusnes ar wahân i Swyddfa'r Post Cyf a bydd ganddyn nhw eu gweithdrefnau eu hunain, a all gynnwys cyflwyno ceisiadau cynllunio a rhoi ystyriaeth i wasanaethau eraill yn yr ardal.

# Atodiad B

## Crynodeb Gwybodaeth am Swyddfa Bost Y Gelli

**Mae yna adegau o bosibl pan fydd rhaid newid oriau agor cangen. Mae’r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan**
**www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**Y lleoliad newydd:**

Siop Gyfleustra Asees, 41 Heol Tŷ-isaf, Y Gelli, CF41 7TX

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Mawrth | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Mercher | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Iau | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Gwener | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Sadwrn | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Sul | 10:00 – 17:00 |

**Cynhyrchion a Gwasanaethau**

Bydd dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.

**Mannau Gwasanaeth**

Bydd man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop.

**Mynediad**

Mae stepen wrth fynedfa’r adeilad newydd, ond bydd y gweithredwr newydd yn darparu ramp symudol er mwyn helpu cwsmeriaid sydd â phroblemau symudedd neu ddefnyddwyr cadair olwyn i fynd i mewn i’r siop. Hefyd, bydd arwydd clir wrth y fynedfa, ynghyd â chloch i'w chanu am gymorth. Bydd y gloch o fewn cyrraedd defnyddwyr cadair olwyn.

Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**

Bydd y gangen newydd tua 45 metr o’r gangen flaenorol, ar hyd tir gwastad y rhan fwyaf o’r ffordd.

Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw.

| | |
|---|---|
| **Y siop** | Siop gyfleustra. |

**Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau, gan gynnwys gwasanaethau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal, ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.**
**Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan y sawl sy'n rhedeg y gangen.**

**Rydym yn gwerthu gwasanaethau'r Post Brenhinol a Parcelforce Worldwide.**
**Mae gwasanaethau post gan gwmnïau eraill hefyd ar gael mewn canghennau penodol.**

| Gwasanaethau ar gael | Y gangen flaenorol | Y gangen newydd |
|---|---|---|
| **Bancio Personol a Busnes o Ddydd i Ddydd** | | |
| Codi Arian Parod | ✓ | ✓ |
| Adneuo Arian Parod | ✓ | ✓ |
| Adneuo Sieciau | ✓ | ✓ |
| **Post** | | |
| Drop & Go | ✓ | ✓ |
| Gwasanaethau Cyflym Parcelforce | ✓ | ✓ |
| **Talu Biliau ac Adlenwi** | | |
| Talu Biliau ac Adlenwi | ✓ | ✓ |
| | | |
| Arian Tramor | Ewros | Ewros |
| Yswiriant Teithio | ✓ | × |
| Cerdyn Arian Teithio | ✓ | ✓ |
| **Eich Arian** | | |
| Ffurflenni Cais Cynilion | ✓ | × |

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau nad ydynt yn y gangen newydd ar gael yn | **Swyddfa Bost Tonpentre,**<br>27 Heol yr Eglwys, Tonpentre, CF41 7EB |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r dogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch**:**

- Cau cangen Swyddfa'r Post yn barhaol[5]
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreinio cangen â Rheolaeth Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[6] er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid, cynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr, ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os penderfynir bwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd ac i mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth hon ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**postofficeviews.co.uk** **Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Comments@postoffice.co.uk** **Ffôn Testun: 03457 22 33 55**
**FREEPOST Your Comments**

[5] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath bydd yr ymgynghoriad yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post arall yn yr ardal.

[6] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd